WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Sir y Fflint

Cyhoeddwyd: Mehefin 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 336A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Jeremy Evans a Paul Goodlad o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Diben yr adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 | 5 |
| Er gwaethaf pwysau ariannol cynyddol, mae'r Cyngor wedi parhau i wella perfformiad yn ei feysydd â blaenoriaeth ac atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol | 6 |
| Argymhellion | 6 |

## Adroddiad manwl

| | |
|---|---|
| Perfformiad | |
| Er gwaethaf pwysau cyllidebol cynyddol, mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n parhau i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009 | 9 |
| Y defnydd o adnoddau | |
| Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei broses rheoli adnoddau ariannol, ond mae wedi gwneud cynnydd llai cyson yn diwygio strategaethau rheoli adnoddau eraill | 14 |
| Llywodraethu | |
| Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas ag ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n ymwneud â llywodraethu sy'n deillio o adroddiad asesu corfforaethol 2015 | 21 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 27 |
| Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 28 |
| Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16 | 31 |

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir y Fflint (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Mawrth 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymr neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y ‘rheoleiddwyr perthnasol’, isod:

| Enw’r Prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Adolygiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| AGGCC: Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2014-15 | Adolygiad a gwerthusiad blynyddol o berfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2014-15. |
| Dadansoddiad bwrdd gwaith Estyn | Trosolwg o faterion allweddol yn y Cyngor, wedi'i baratoi gan Estyn. |
| Swyddfa Archwilio Cymru - Meincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad | Adolygiad ledled y chwech o gynghorau yn y Gogledd i ymchwilio i werth dangosyddion perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol cyfredol a’u cysylltiadau, os o gwbl, â chostau cyflawni. |
| Asesiad o Berfformiad Swyddfa Archwilio Cymru | Asesiad o gynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella sydd wedi’u cynnwys yn Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2014 (sy’n cynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2014), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015. |
| Gwaith dilynol | Ceisio sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar waith ar gyfer ymateb i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, olrhain y modd y caiff argymhellion eu gweithredu a chyflwyno adroddiadau ar hyn i’r pwyllgor priodol. |
| Adroddiadau Cenedlaethol | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau diogelwch cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Trefniadau’r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector |

## Er gwaethaf pwysau ariannol cynyddol, mae'r Cyngor wedi parhau i wella perfformiad yn ei feysydd â blaenoriaeth ac atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol

6 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Mesur a'i fod yn debygol o fodloni gofynion y Mesur a sicrhau gwelliant yn ystod 2016-17.

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a er gwaethaf pwysau cyllidebol cynyddol, mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n parhau i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009;
- b mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei broses rheoli adnoddau ariannol, ond mae wedi gwneud cynnydd llai cyson yn diwygio strategaethau rheoli adnoddau eraill; ac
- c mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas ag ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n ymwneud â llywodraethu sy'n deillio o adroddiad asesu corfforaethol 2015.

## Argymhellion

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- c cynnal arolygiad arbennig, cyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol, ond nododd adroddiadau eraill a gyflwynwyd i'r Cyngor faterion blaenoriaeth is, sef cynigion ar gyfer gwella, ac efallai y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

10 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

11 Yn ogystal, nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella/camau gweithredu yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gellir eu gweld yn www.aggcc.org.uk a www.comisiynyddygymraeg.cymru.

12 Ni chyflwynodd Estyn unrhyw adroddiadau arolygu i'r Cyngor yn ystod 2014-15.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Er gwaethaf pwysau cyllidebol cynyddol, mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n parhau i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009

13 Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009. Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau cydymffurfio ar gyfer Cynllun Gwella'r Cyngor 2015-16 ym mis Gorffennaf 2015 ac ar gyfer Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2014-15 ym mis Tachwedd 2015.

### Mae gan y Cyngor brotocol ar gyfer ymdrin ag adroddiadau cenedlaethol a gaiff eu llunio gan yr archwilydd allanol a rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill ac mae'n parhau i atgyfnerthu ei ddull o ymateb i argymhellion

14 Mae tîm Polisi a Pherfformiad y Cyngor yn gyfrifol am ddosbarthu'r holl adroddiadau archwilio ac arolygu allanol i swyddogion a phwyllgorau priodol. Erys trefniadau dosbarthu yn hyblyg, yn enwedig lle y bydd gan adroddiadau cenedlaethol oblygiadau posibl o ran cynulleidfa fewnol ehangach. Mae'r dull hwn o weithredu yn helpu i sicrhau bod swyddogion ac Aelodau yn ymwybodol o adroddiadau ac argymhellion cysylltiedig sy'n effeithio ar eu meysydd cyfrifoldeb.

15 Yn ystod 2013, diweddarodd y Cyngor ei ddull o adolygu ac adrodd ar ei gydymffurfiaeth ag argymhellion adroddiadau archwilio ac arolygu allanol. Mae'r trefniadau hyn yn dal i aeddfedu. Er enghraifft, nid oes dull rhagnodedig o adrodd ar gynnydd yn erbyn camau y cytunwyd arnynt fel mater o drefn; mae swyddogion yn rhoi adborth i'r pwyllgor priodol, ond mae hyn yn digwydd ar sail mwy ad hoc. Fodd bynnag, caiff y Pwyllgor Archwilio adroddiad blynyddol cynhwysfawr, y bwriedir iddo roi sicrwydd bod pob adroddiad rheoleiddio ac arolygu allanol wedi'i ystyried yn y pwyllgorau Aelodau priodol a bod camau wedi'u cymryd mewn ymateb i'r argymhellion, lle bo'n briodol. Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y trydydd adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2016.

### Mae'r Cyngor wedi gwneud mwy o gynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau gwella

16 Blaenoriaethodd y Cyngor y gwaith o ddiogelu gwasanaethau rheng flaen wrth bennu ei gyllidebau blynyddol. Mae hyn wedi cyfrannu at welliant parhaus mewn perfformiad, fel y mesurwyd gan ddangosyddion perfformiad cenedlaethol. Yn ystod 2014-15, gwnaeth y Cyngor wella neu gynnal ei berfformiad ar gyfer bron dwy ran o dair (63 y cant) o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol. Er bod hyn ychydig yn is na'r 67 y cant a gyflawnwyd yn 2013-14, mae'n dal i fod yn berfformiad da, o ystyried y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu llywodraeth leol.

17 Gwnaeth perfformiad y Cyngor o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru wella'n sylweddol. Gwellodd cyfran y dangosyddion lle'r oedd perfformiad yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 51 y cant yn 2013-14 i 62 y cant yn 2014-15 ac roedd cyfran uwch o ddangosyddion cenedlaethol yn yr hanner uchaf - 60 y cant yn 2014-15 o gymharu â 54 y cant yn 2013-14. Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[1] yn atgyfnerthu'r farn hon am berfformiad cymharol. Roedd y Cyngor

1 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys tua 12,000 o bobl y flwyddyn o bob cwr o Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw.

ymhlith un o ddim ond tri chyngor yng Nghymru lle na wnaeth canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch ansawdd gwasanaethau[2] waethygu rhwng 2013-14 a 2014-15. Dyrchafwyd y Cyngor o'r seithfed safle allan o 22 i'r ail safle yn 2014-15 ar gyfer yr agwedd benodol honno ar yr arolwg.

18 Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn gwerthuso perfformiad a chynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau gwella[3], yr is-flaenoriaethau sylfaenol a'r gweithgareddau lefel uchel sy'n cefnogi'r blaenoriaethau hyn, a hynny fel mater o drefn. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein dadansoddiad ein hunain o gynnydd a pherfformiad y Cyngor wedi cadarnhau bod ei brosesau hunanwerthuso yn gytbwys ac wedi'u hategu gan dystiolaeth dda. Hefyd, dengys cymhariaeth o asesiad y Cyngor o gynnydd yn 2013-14 a 2014-15 (Arddangosyn 1) gynnydd ym mhob rhan o hierarchaeth blaenoriaethau gwella strategol a gweithredol y Cyngor.

### Arddangosyn 1: Cymharu gwerthusiad y Cyngor o gynnydd yn 2013-14 a 2014-15

| Maes cynnydd | Data Hunanasesu o Adroddiad Perfformiad 2013-14 | Data Hunanasesu o Adroddiad Perfformiad 2014-15 |
|---|---|---|
| Cynnydd yn erbyn wyth Blaenoriaeth Gwella'r Cyngor | Cynnydd Da: 2<br>Cynnydd Boddhaol: 6<br>Cynnydd Cyfyngedig: 0 | Cynnydd Da: 7<br>Cynnydd Boddhaol: 1<br>Cynnydd Cyfyngedig: 0 |
| Cynnydd yn erbyn is-flaenoriaethau'r Cyngor | Cynnydd Da: 11<br>Cynnydd Boddhaol: 13<br>Cynnydd Cyfyngedig: 0<br>(24 o is-flaenoriaethau yn 2013-14) | Cynnydd Da: 16<br>Cynnydd Boddhaol: 6<br>Cynnydd Cyfyngedig: 0<br>(22 o is-flaenoriaethau yn 2014-15) |
| Cynnydd yn erbyn gweithgareddau lefel uchel y Cyngor | Cynnydd Da: 55<br>Cynnydd Boddhaol: 41<br>Cynnydd Cyfyngedig: 2<br>(98 o weithgareddau lefel uchel yn 2013-14) | Cynnydd Da: 50<br>Cynnydd Boddhaol: 28<br>Cynnydd Cyfyngedig: 1<br>(79 o weithgareddau lefel uchel yn 2014-15) |

Ffynhonnell: Cyngor Sir y Fflint

19 Sicrhaodd y Cyngor grant Cytundeb Canlyniadau llawn Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a 2014-15; mae hyn yn helpu'r Cyngor i ddangos ei fod wedi parhau i wella canlyniadau ar gyfer pobl leol yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol.

2 Yn 2013-14 a 2014-15, dywedodd 61 y cant o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg yn Sir y Fflint eu bod naill ai'n cytuno'n gryf, neu'n tueddu i gytuno, fod eu hawdurdod lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel

3 Mae wyth Blaenoriaeth Gwella'r Cyngor yn canolbwyntio ar Dai, Byw'n Dda, Economi a Menter, Sgiliau a Dysgu, Cymunedau Diogel, Tlodi, yr Amgylchedd, Cyngor Modern ac Effeithlon.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn flaenorol gan AGGCC, ond erys rhai meysydd â pherfformiad gwannach o ran gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion

20 Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-15 ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ym mis Hydref 2015. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi gwerthusiad AGGCC o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol; mae'r adroddiad llawn ar gael ar ei wefan.

21 Nododd AGGCC fod y Cyngor yn wynebu heriau mawr o ran cyflawni'r cyfrifoldebau newydd a grëwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Cyngor yn realistig o ran y risgiau a berir gan alw cynyddol, diwallu anghenion mwy cymhleth a phwysau cyllidebol cynyddol. Mewn ymateb, mae wedi datblygu nifer o fodelau gwasanaeth newydd fel rhan o raglen drawsnewid strategol sy'n canolbwyntio fwyfwy ar y nod o greu system ofal ataliol ac integredig.

22 Mae'r Cyngor yn derbyn na all y buddiannau a'r cyflawniadau cynnar a welwyd drwy ei raglen ailalluogi ddigwydd mwyach i'r un graddau, ac mae'n rhagweld y bydd gan niferoedd cynyddol o bobl hŷn yn arbennig anghenion gofal cymhleth neu anghenion cymorth parhaus. O ganlyniad, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu trefniadau mynediad gwell, yn buddsoddi mewn prosesau comisiynu craffach ac yn gwneud trefniadau gweithio cryfach a mwy integredig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Yn arbennig, mae mwy o hyder y bydd y strwythur gwaith newydd a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnig ffocws lleol mwy cadarn.

23 Mae trefniadau diogelu oedolion ar gam trosiannol ac mae angen eu hatgyfnerthu er mwyn gallu ymateb yn fwy cyson. Ni chaiff trothwyon eu rhoi ar waith yn gyson ac mae angen i oedolion bregus gael llais cryfach a bod wrth wraidd arferion gweithio. Yng nghanol 2015, arolygodd AGGCC Wasanaethau Cymdeithasol i Blant y Cyngor, gan ganolbwyntio ar fynediad i wasanaethau ac ansawdd gwaith o fewn gwasanaethau plant yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Yn arbennig, edrychodd yr arolygiad ar yr effaith i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a pha mor dda roedd y Cyngor yn ymateb i'w hanghenion.

24 Nododd AGGCC fod angen i'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb mewn ffordd amserol a chyson briodol. Mae cyfraddau ailgyfeirio wedi cynyddu'n sylweddol; mae angen i'r Cyngor ddeall y rhesymau dros hynny ac yna ymdrin â hwy. Gellir cael manylion llawn yr arolygiad - a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015 - o wefan AGGCC.

25 Mae cyfleoedd mewn bywyd i blant sy'n derbyn gofal yn gofyn am ymrwymiad parhaus a phenderfyniad er mwyn eu gwella. Er y bu canlyniadau diweddar yn dda, ceir arwyddion nad yw rhianta corfforaethol mor effeithiol ag y gallai fod. Ni chaiff nifer fawr o leoliadau eu darparu yn yr ardal gyfagos, nid yw lleoliadau ysgol mor sefydlog ag yr oeddent ac ni chaiff asesiadau iechyd eu cynnal fel mater o drefn. Mae angen i'r Cyngor adolygu sut i ymdrin â'r materion hyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd.

26 Ar ddechrau 2015, gwnaeth AGGCC hefyd arolygu gwasanaethau maethu'r Cyngor a nododd fod llawer o bethau yn cael eu gwneud yn dda, fel ymwybyddiaeth dda o anghenion plant ac ymrwymiad gwirioneddol i ddarparu gwybodaeth o safon. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i ddod o hyd i fwy o bobl sy'n barod i faethu. Gellir lawrlwytho'r adroddiad o wefan AGGCC.

27 Fel rhan o waith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru yn y chwe chyngor yn y Gogledd, lluniwyd dogfen i'r Cyngor a oedd yn cyflwyno'r canlynol:

a y galw yn y dyfodol am wasanaethau cymdeithasol yn Sir y Fflint drwy feincnodi amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer plant a phobl hŷn; a

b chyfres o ddadansoddiadau ar ffurf graff a oedd yn cyfuno data ariannol a data perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn Sir y Fflint dros sawl blwyddyn ac a oedd hefyd yn gosod y Cyngor yng nghyd-destun y 21 cyngor arall yng Nghymru.

28 Nid oedd unrhyw argymhellion na chasgliadau'n codi o'r gwaith hwn. Cafodd pob cyngor becyn data a oedd yn cynnwys data gwerth am arian a gwnaethom hwyluso gweithdy ar gyfer ardal gyfan y Gogledd i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ac uwch reolwyr allweddol eraill.

## Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

29 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Sir y Fflint gryn dipyn islaw cyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso'r perfformiad yn yr awdurdod.

30 Mae perfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen a dangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 2 wedi gwella'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad ar gyfer y ddau ddangosydd ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru yn 2015, ond mae islaw'r hyn a gafwyd mewn awdurdodau tebyg. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi parhau i fod gryn dipyn uwchlaw cyfartaledd Cymru dros y pum mlynedd diwethaf ac, yn 2015, mae'n unol â pherfformiad awdurdodau tebyg yn gyffredinol.

31 Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi parhau i fod uwchlaw cyfartaledd Cymru dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi dirywio dros y ddwy flynedd olaf yn 2014 a 2015 ac mae bellach islaw perfformiad awdurdodau tebyg. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog wedi'i chapio wedi gwella bob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf, ond ar gyfradd arafach na Chymru gyfan. Yn 2015, mae perfformiad islaw cyfartaledd Cymru am y tro cyntaf, ac mae'n llawer is nag awdurdodau tebyg. Nid yw'r awdurdod wedi bodloni'r naill feincnod na'r llall a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad cyfnod allweddol 4 yn 2015, ar ôl bodloni un yn y ddwy flynedd

flaenorol a'r ddau yn 2012. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd TGAU A* neu A, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru ac yn sylweddol is nag awdurdodau tebyg ers pum mlynedd.

32 Mewn ysgolion cynradd, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er iddo wella'n raddol, wedi bod islaw cyfartaledd Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf. Mewn ysgolion uwchradd, fodd bynnag, mae perfformiad y disgyblion hyn wedi parhau i fod uwchlaw cyfartaledd Cymru yn yr un cyfnod.

33 Mae lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella'n arafach nag ar gyfer Cymru gyfan ac, am y tro cyntaf mewn pum mlynedd, maent islaw cyfartaledd Cymru yn 2015. Mae lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru ers pum mlynedd ac, yn 2015, mae'n gyfartalog o gymharu ag awdurdodau tebyg.

34 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfraddau gwahardd yn ysgolion Sir y Fflint wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru ac yn llawer uwch nag awdurdodau tebyg. Er gwaethaf hyn, yn 2014, yr awdurdod oedd â'r ganran isaf o ddisgyblion o Flwyddyn 11 a oedd yn gadael yr ysgol heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.

# Y defnydd o adnoddau

## Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei broses rheoli adnoddau ariannol, ond mae wedi gwneud cynnydd llai cyson yn diwygio strategaethau rheoli adnoddau eraill

### Cyhoeddodd yr archwilydd penodedig farn archwilio ddiamod ar y cyfrifon a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am faterion allweddol i ymdrin â hwy

35 Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor ar 2 Rhagfyr 2015, a gyflwynwyd wedyn i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2016. Roedd y llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a oedd yn deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn.

### Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ariannol ond roedd ei ddull o bennu cyllidebau ar gyfer 2016-17 yn un risg uchel

36 Mae gweledigaeth gyffredinol y Cyngor a'i wyth blaenoriaeth strategol wedi'u nodi'n glir yn ei Gynllun. Yn ystod 2015-16, mae'r Cyngor wedi ymateb i adborth o'n hadroddiad asesu corfforaethol ym mis Mawrth 2015 drwy fynd ati i atgyfnerthu ymhellach y cysylltiadau rhwng ei amcanion gwella a'i gynlluniau gwasanaeth ac ariannol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymryd camau i sicrhau bod ei gyllidebau yn fwy cydnaws er mwyn helpu i gyflawni ei weledigaeth gorfforaethol, ei nodau a'i amcanion gwella.

37 Caiff dull y Cyngor o gynllunio'r gyllideb ei lywio gan dybiaethau cynhwysfawr a rhesymol sy'n seiliedig ar ddata cadarn. Mae Rhan 1 o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn darogan yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael i'r Cyngor dros gyfnod o dair blynedd (2015-16 i 2017-18), gan gynnwys y pwysau ar yr adnoddau hynny. Amlinellodd y Cyngor effeithiau'r cwymp mewn cyllid cenedlaethol a diffyg argaeledd adnoddau cenedlaethol i ymateb i bwysau chwyddiant a phwysau cost eraill yn y Strategaeth honno. Mae Rhan 2 o'r Strategaeth yn amlinellu strategaeth ariannu tair blynedd i ymdrin â'r gostyngiadau cyllidebol o £45.5 miliwn a nodwyd dros gyfnod y Strategaeth, sef:[4]

a Rhan 1: diwygio gwasanaethau a chynllunio busnes;

b Rhan 2: stiwardiaeth ariannol gorfforaethol; a

c Rhan 3: gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cael arian ychwanegol i gau'r bwlch sy'n weddill.

4 Nododd y Strategaeth fwlch cyllidebol o £52.8 miliwn, cyn setliad dros dro mis Rhagfyr 2015, a wnaeth leihau'r bwlch cyllidebol i tua £45.5 miliwn.

38 Cydnabu'r Cyngor fod pwyso ar Lywodraeth Cymru am setliad ariannol gwell i'r hyn a gafodd ei ddarogan gyntaf gan y Cyngor yn drywydd risg uchel - ond roedd yn amlwg y byddai'r dewis amgen yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud toriadau annerbyniol i wasanaethau rheng flaen.

39 Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ostyngiad llai na'r disgwyl yn y Grant Cynnal Refeniw, sef 1.5 y cant ar gyfer 2016-17, yn hytrach na'r 3.5 y cant a gafodd ei ddarogan gan y Cyngor yn ei Strategaeth. Ac yntau eisoes wedi nodi lleihad mewn costau o £12.4 miliwn ar gyfer 2016-17, arweiniodd y setliad dros dro, ynghyd â'r pwysau newydd a'r pwysau a oedd yn dod i'r amlwg, at leihau'r bwlch cyllidebol a oedd yn weddill i £3.5 miliwn[5]. Tynnodd adroddiad mis Ionawr 2016 i'r Cabinet sylw at waith i nodi opsiynau pellach ar gyfer lleihau'r gyllideb, gan gynnwys costau'r gweithlu, y dreth gyngor a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau (£1.4 miliwn). Cafodd y meysydd cytûn ar gyfer lleihau costau eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Chwefror 2016. Mae'r Cyngor bellach wedi pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2016-17, heb fod angen arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

## Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei reolaethau ariannol, gan gynnwys datblygu polisi cynhyrchu incwm a chodi tâl cynhwysfawr

40 Mae gan y Cyngor drefniadau pennu cyllideb effeithiol ar waith a threfniadau monitro cyllideb cyffredinol effeithiol ar waith, a ategir gan reolau gweithdrefnol ariannol sy'n diffinio rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.  Hefyd, mae ganddo gynllun dirprwyo sydd wedi'i ddiffinio'n glir, ynghyd â phrotocolau ar gyfer rheoli gorwariant neu danwariant cyllidebol.

41 Mae'r Cyngor hefyd yn cyflwyno system meddalwedd newydd, y bwriedir iddi awtomeiddio'r broses monitro cyllideb yn llawn, hyrwyddo dull mwy cyson o reoli'r gyllideb o fewn y Cyngor a lleihau nifer y taenlenni unigol a ddefnyddir gan adrannau gwasanaeth gwahanol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i hyn helpu'r swyddogaeth Gyllid i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cymorth y mae'n ei gynnig drwy wella mynediad rheolwyr i wybodaeth ariannol ac amseroldeb gwybodaeth i Aelodau.

42 Yn ystod 2015-16, mae'r Cyngor wedi gwella ei allu i fonitro ac ymateb i bwysau cyllidebol ac amrywiannau sy'n dod i'r amlwg drwy sefydlu wyth Bwrdd Rhaglen - sy'n cynnwys uwch swyddogion ac Aelodau - sy'n herio ac yn adolygu perfformiad yn rheolaidd. Fodd bynnag, fel llawer o'i gymheiriaid, nid yw'r Cyngor yn mynd ati i fonitro ei gymarebau ariannol allweddol yn gadarn - felly ni all eu meincnodi yn erbyn cyrff tebyg.

5 Adroddiad i'r Cabinet: 19 Ionawr 2016 ac 16 Chwefror 2016.

43 Mae cynhyrchu mwy o incwm yn rhan allweddol o gyllideb y Cyngor ac yn un o brif elfennau ei Strategaeth. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y bydd angen i'r Cyngor ddatblygu ei bolisi incwm a nodi cyfleoedd newydd i gynhyrchu incwm. Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth cynhyrchu incwm fwy cynhwysfawr - y mae'n disgwyl ei chwblhau yn 2016 - gan adeiladu ar waith cynharach i ddatblygu polisi ffioedd a thaliadau cyson. Mae'r Cyngor yn bwriadu i'r strategaeth ddiffinio'r trefniadau ar gyfer adolygu ffioedd a thaliadau presennol ac egwyddorion allweddol ar gyfer sicrhau'r incwm mwyaf posibl yn y dyfodol bob blwyddyn. Bydd hefyd yn ystyried polisïau llywodraethol yn y dyfodol a dadansoddiad cenedlaethol a lleol ehangach, gan gynnwys y sefyllfa economaidd er mwyn pennu unrhyw risgiau yn y dyfodol sydd ynghlwm wrth gynnydd neu leihad yn nifer y cwsmeriaid. Bydd y strategaeth hefyd yn cynnwys unrhyw oblygiadau o ran diwygiadau cenedlaethol. Er enghraifft, y cap ar ofal iechyd ac unrhyw effaith ar gynhyrchu incwm os caiff ei adolygu yng Nghymru a beth fyddai goblygiadau ariannol hyn i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r strategaeth cynhyrchu incwm newydd, ynghyd ag eraill, ategu'r gwaith o gyflwyno ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

44 Yn draddodiadol, er gwaethaf trefniadau pennu a monitro cyllideb cyffredinol effeithiol, mae ein gwaith ar archwilio'r datganiadau ariannol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi nodi rhai agweddau ar drefniadau rheoli ariannol ehangach y Cyngor nad oeddent yn ddigon cadarn. O ganlyniad, gwnaethom gymryd rhan mewn  sesiwn ddysgu ôl-prosiect gyda swyddogion er mwyn nodi cyfleoedd i wella rheolaethau a dull gweithredu'r Cyngor. Deilliodd amrywiaeth o syniadau o'r cyfarfod hwnnw er mwyn gwella prosesau a dulliau gweithredu'r Cyngor, y mae nawr yn eu rhoi ar waith.

## Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr ar waith i adolygu a herio perfformiad ariannol ac mae'n cymryd camau i sicrhau bod ganddo ddigon o allu ac adnoddau corfforaethol ac ariannol a gwell system cynhyrchu cyfrifon

45 Mae gan dîm arwain y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r heriau a'r risgiau ariannol sylweddol sy'n newid yn gyflym y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Yn ogystal â threfniadau ffurfiol ar gyfer adrodd ar berfformiad cyllidebol a'i herio, fel y Cabinet a Phwyllgorau Chraffu, mae'r Cyngor wedi datblygu trefniadau mwy anffurfiol ond sydd eto'n gadarn. Mae'r Cyngor hefyd wedi ailstrwythuro ei dîm o brif swyddogion er mwyn hyrwyddo cydgyfrifoldeb am waith cynllunio ariannol strategol.

46 Yn ogystal â rhyngweithio rheolaidd rhwng prif swyddogion a Swyddog A151, mae'r Cyngor wedi sefydlu wyth Bwrdd Rhaglen sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn herio ac adolygu perfformiad. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn annog herio tybiaethau a pherfformiad ariannol yn rheolaidd ac maent yn helpu i ehangu dealltwriaeth Aelodau a swyddogion o sefyllfa ariannol y Cyngor.

47 Caiff Aelodau adroddiad manwl a rheolaidd ar y gyllideb sy'n darparu gwybodaeth am gynnydd, amrywiad yn erbyn cynlluniau a chamau cywirol sydd eisoes ar waith neu yn yr arfaeth. Mae hyn yn galluogi aelodau i graffu ar berfformiad ariannol a'i herio'n effeithiol, gan ddwyn swyddogion ac aelodau arweiniol i gyfrif.

48 Mae'r Cyngor wedi parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch materion cyllidebol. Cafodd y gwaith o ddatblygu cyllideb 2016-17 ei lywio gan ymgynghoriad 'Dyma ein Cyfle Ni'. Ar sail ei brofiadau, darparodd y Cyngor wybodaeth fwy cynhwysfawr am yr heriau a'r opsiynau y mae'n eu hwynebu a chynhaliodd gyfres o saith cyfarfod cyhoeddus ledled y sir er mwyn gwrando ar farn ei ddinasyddion. Daeth 319 o bobl i'r cyfarfodydd hyn a hefyd gwnaeth tua 6,500 o bobl edrych ar wybodaeth y Cyngor ar-lein mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

49 Er i'r Cyngor ddangos gwelliannau o ran pennu cyllideb a rheoli perfformiad ariannol, mae'n parhau i wynebu heriau wrth baratoi ei ddatganiadau ariannol. Mae cyfrifon blynyddol y Cyngor wedi cael eu diwygio fel rhan o'r broses archwilio flynyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn achos cyfrifon blynyddol 2014-15, roedd angen gwneud sawl newid nodedig cyn bod modd eu cyflwyno'n derfynol i'w cymeradwyo. Er bod cynllun gweithredu sydd wedi'i ddatblygu ar waith er mwyn gwella'r broses gyfrifyddu flynyddol, ac er mwyn ehangu'r cydgyfrifoldeb am y cyfrifon blynyddol ymhlith uwch swyddogion sy'n atebol am adnoddau a gwariant gwasanaethau, nid yw'r gwaith yn gyflawn a chaiff ei brofi wrth archwilio datganiadau ariannol 2015-16.

## Mae cynnydd anghyson wrth ddiwygio'r strategaethau Pobl, TGCh a Rheoli Asedau wedi peri oedi i'r gwaith o gwblhau strategaeth adnoddau corfforaethol gyffredinol

**Asesiad Corfforaethol - Cynnig ar gyfer Gwella C3**

Wrth weithredu ei strategaethau diwygiedig ar gyfer Pobl, TGCh a Rheoli Asedau, dylai'r Cyngor sicrhau:

- bod eu goblygiadau ariannol yn cael eu cynnwys yn y cynllun ariannol ar gyfer y tymor canolig; a
- bod y cysylltiadau rhwng y strategaethau yn cael eu hystyried yn llawn fel bod staff arbenigol ar gael pan fo angen.

50 Cymeradwyodd y Cyngor strategaeth rheoli asedau newydd ym mis Chwefror 2016, ond prin fu'r cynnydd a wnaed ganddo wrth ddatblygu strategaethau newydd ar gyfer TGCh a Phobl. Fodd bynnag, mae dull gweithredu'r Cyngor wedi canolbwyntio ar gysoni adnoddau â'i weithgareddau â blaenoriaeth.

51 Mae Strategaeth Gyfalaf a Chynllun Rheoli Asedau newydd y Cyngor ar gyfer 2016-2020 yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer ei asedau tir ac adeiladau. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun yn atgyfnerthu dull tymor canolig y Cyngor o reoli ei asedau drwy ddarparu system strwythuredig ac integredig ar gyfer rheoli cyfalaf ac asedau.

52 Ceir cysylltiadau cadarn â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, gyda nodau ac egwyddorion clir sy'n cefnogi rheoli asedau'r Cyngor yn effeithiol. Hefyd, ceir cysylltiadau clir rhwng rhaglen gyfalaf y Cyngor a'i brosesau cynllunio cyllideb gwasanaeth a refeniw, y mae'r ddau yn ystyried fframwaith y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ym marn y Cyngor, mae'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau yn brif ffactor galluogi - ynghyd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Gwella - sy'n ei helpu i leihau effaith pwysau ariannol parhaus.

53 Mae'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau yn nodi 'anghenion a blaenoriaethau'r Cyngor' dros y pum mlynedd nesaf ac yn diffinio rôl y Bwrdd Rhaglen Asedau, sy'n cynnwys uwch swyddogion o bob un o bortffolios y Cyngor. Mae'r Bwrdd hwn yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli llifau gwaith sy'n gysylltiedig â rhaglen gyfalaf a sylfaen asedau ehangach y Cyngor ynghyd â'r strategaeth a'r cynllun gwaredu asedau. Hefyd, mae gan y Bwrdd gylch gwaith i hyrwyddo cysylltiadau cryf rhwng y Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau a strategaethau corfforaethol eraill, gan gynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn meithrin dull integredig o reoli asedau, gyda'r potensial i gefnogi datblygiadau a newidiadau strategol a gweithredol.

54 Dechreuodd y gwaith o ddatblygu strategaeth TGCh newydd ar ddechrau 2015, ond bu oedi yn sgil penderfyniad i ailstrwythuro'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi parhau i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor a'r rhaglen newid gorfforaethol. Mae'r Cyngor nawr yn disgwyl cyhoeddi fersiwn derfynol y strategaeth TGCh newydd yn ystod haf 2016.

55 Cydnabu ein hadroddiad asesu corfforaethol fod y gwaith o gyflwyno cytundeb Statws Sengl a Chyflog Cyfartal y Cyngor yn heriol iawn ac wedi effeithio ar gynnydd blaenoriaethau Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol eraill. Ers hynny, mae absenoldebau staff hirdymor a ffocws ar ategu adolygiadau gwasanaeth a chynlluniau busnes wedi arwain at leihau gallu ac adnoddau'r tîm Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn sylweddol, gan beri oedi i'r Strategaeth Pobl newydd.

56 Gallai'r oedi wrth ddatblygu a gweithredu Strategaethau TGCh a Phobl newydd gael effaith ar eu potensial i gyfrannu at agenda effeithlonrwydd y Cyngor a chefnogi strategaethau allweddol eraill yn fwy cynhwysfawr. Er enghraifft, mae'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau yn cydnabod cyfleoedd i ddefnyddio TGCh fel ffactor sy'n galluogi newid ac arbedion effeithlonrwydd, fel ehangu cwmpas trefniadau gweithio ystwyth y Cyngor. Fodd bynnag, efallai na fydd y Cyngor yn gallu achub ar rai cyfleoedd tan i strategaeth TGCh newydd gael ei datblygu'n llawn.

57 Yn fwy pwysig, mae'r oedi sy'n gysylltiedig â'r strategaethau Pobl a TGCh wedi atal cwblhau Strategaeth Adnoddau Corfforaethol, y bwriadwyd ei chyhoeddi'n wreiddiol yn ystod haf 2015. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r Strategaeth Adnoddau Corfforaethol ddarparu ffocws strategol cyffredinol ar allu, adnoddau a risgiau, ac annog cysylltiadau cryfach rhwng y strategaethau galluogi.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud peth cynnydd wrth fynd ati i wneud ei broses o gynllunio'r gweithlu yn fwy cyson, ond mae angen gwneud mwy er mwyn gorffen y gwaith hwnnw

**Asesiad Corfforaethol - Cynnig ar gyfer Gwella C7**

Dylai'r Cyngor sicrhau dull cyson o gynllunio'r gweithlu a defnyddio'r canlyniadau i lywio gostyngiadau mewn staff yn y dyfodol.

58 Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithredu amrywiaeth o fentrau sydd â'r nod o hyrwyddo dull mwy cyson o gynllunio'r gweithlu, gan adlewyrchu strwythur llywodraeth leol llai o faint a mwy darbodus gyda mwy o ffocws ar gyflawni yn y gymuned. Megis dechrau y mae rhai mentrau ac mae'r gwaith arnynt yn mynd rhagddo. Yn ôl y Cyngor, bydd Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn gweithio gyda thimau rheoli portffolios er mwyn sicrhau y datblygir cynlluniau'r gweithlu sy'n strategol gyson ac wedi'u hintegreiddio â strategaethau busnes, gwasanaeth, ariannol a strategaethau gweithlu corfforaethol.

59 Mae model arfarnu staff newydd y Cyngor yn gwella ei ddull o gynllunio'r gweithlu, ond - fel y nodwyd uchod - mae pwysau o ran gallu ac adnoddau Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol wedi cyfyngu ar gynnydd mewn rhai meysydd. Mae'r Cyngor wedi adolygu ei strwythur Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ac mae'n cymryd camau i atgyfnerthu ei drefniadau ar ddechrau 2016.

60 Yn ystod 2015, cyflwynodd a gweithredodd y Cyngor fodel arfarnu staff newydd sy'n annog mwy o berchenogaeth unigol o flaenoriaethau adrannol a chorfforaethol. Mae'r model newydd hwn hefyd wedi gwella dull y Cyngor o gynllunio olyniaeth a chynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, ni wnaeth y Cyngor gyflawni ei nod gwreiddiol i arfarnu pob aelod o staff gan ddefnyddio'r system newydd, erbyn canol 2015. Erbyn diwedd mis Mawrth 2016, roedd y model newydd yn dal i hepgor lleiafrif o staff.

61 Mae'r broses o arfarnu staff wedi cael budd o system TG well sy'n gallu rhoi dadansoddiad mwy cynhwysfawr o ddata i reolwyr. Ar ôl ei chyflwyno'n llawn, mae'r Cyngor yn disgwyl i'r data a ddaw o'r system atgyfnerthu ei allu o ran cynllunio'r gweithlu.

62 Yn ogystal ag atgyfnerthu trefniadau cynllunio’r gweithlu, mae’r Cyngor wedi ceisio gostwng lefelau absenoldeb staff. Er nad yw data absenoldeb oherwydd salwch diwedd blwyddyn 2015-16 ar gael eto, mae’r Cyngor yn disgwyl gwella ei berfformiad ar gyfer 2014-15. Ddiwedd mis Rhagfyr 2015, roedd rhagamcan diwedd blwyddyn y Cyngor yn 9.8 diwrnod/sifft a gollwyd fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn, o gymharu â 10.7 diwrnod yn 2014-15. Yn ôl y Cyngor, mae’r gwelliant hwn i’w briodoli i waith â ffocws gan dîm Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol. Darparodd y tîm gymorth wedi’i deilwra i adlewyrchu’r cyd-destun y mae portffolios unigol yn gweithredu ynddynt - er mwyn codi proffil polisi absenoldeb oherwydd salwch y Cyngor a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu’n gyson. Mae’r tîm hefyd wedi dechrau trefnu a mynychu cynadleddau achos gyda chydweithwyr Iechyd Galwedigaethol er mwyn archwilio a chefnogi achosion mwy cymhleth. Mae mesurau o’r fath yn helpu’r Cyngor i wella lefelau presenoldeb staff ac maent yn atgyfnerthu ei ymdrechion i gryfhau ei ddull o gynllunio’r gweithlu.

# Llywodraethu

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas ag ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n ymwneud â llywodraethu sy'n deillio o adroddiad asesu corfforaethol 2015

63 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar gynnydd y Cyngor yn erbyn y pum cynnig sy'n ymwneud â llywodraethu ar gyfer gwella sy'n deillio o'r adroddiad asesu corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015.

### Mae'r Cyngor wedi cymryd amrywiaeth o gamau er mwyn sicrhau bod ei drefniadau cynllunio busnes yn fwy cyson ac er mwyn annog mwy o berchenogaeth o amcanion a thargedau allweddol ymhlith staff

**Asesiad Corfforaethol - Cynnig ar gyfer Gwella C1**

Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu dull cyson o gynllunio busnes sy'n annog staff i berchenogi amcanion a thargedau allweddol.

64 Mae dull diwygiedig y Cyngor o gynllunio busnes wedi gwella ei allu i nodi arbedion effeithlonrwydd. Mae wyth maes portffolio'r Cyngor wedi llunio cynllun busnes tair blynedd, sy'n targedu arbedion cost o tua 30 y cant ym mhob maes heblaw am addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal â chanolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd, mae'r cynlluniau hefyd yn ystyried cyfrifoldebau statudol a'u cyfraniad at flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

65 Mae byrddau rhaglen newydd y Cyngor – a fynychir gan swyddogion ac Aelodau portffolio - yn cwmpasu pob maes portffolio ac yn cyfrannu at y broses cynllunio busnes, drwy reoli a monitro'r cynlluniau busnes effeithlonrwydd ac adolygu risg, capasiti, lefelau ymgysylltu a'r adnoddau sydd eu hangen. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau cyflwyno ei system rheoli perfformiad integredig y mae'n disgwyl ei chwblhau erbyn canol 2016, gan hyrwyddo dull mwy cyson o gynllunio gwasanaethau.

66 Mae'r trefniadau cynllunio busnes gwell yn cefnogi Cynllun Gwella'r Cyngor mewn modd mwy cynhwysfawr. Er enghraifft, mae ei flaenoriaethau bellach wedi'u hadlewyrchu'n gliriach yn y blaenoriaethau lefel gwasanaeth a nodwyd ar y cam cynllunio busnes a gwasanaeth. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â gwell model arfarnu staff, yn helpu cyflogeion a'u rheolwyr gwasanaeth i werthfawrogi sut mae eu cyfraniad yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol a lefel gwasanaeth y Cyngor. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y dull hwn o weithredu, pan gaiff ei gyflwyno'n llawn, yn annog mwy o berchenogaeth o amcanion a thargedau allweddol ymhlith staff.

## Mae'r Cyngor wedi cyflwyno newidiadau sydd wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i ansawdd a natur ddarllenadwy adroddiadau a gyflwynir gerbron pwyllgorau a'r Cabinet

**Asesiad Corfforaethol - Cynnig ar gyfer Gwella C2**

Dylai'r Cyngor wella ansawdd ei adroddiadau i'r pwyllgorau a'r Cabinet er mwyn sicrhau:

- bod adroddiadau'n galluogi cynghorwyr, lle bo angen, i gyfeirio'n rhwydd at bolisïau perthnasol a phenderfyniadau a thrafodaethau blaenorol;
- bod y prif negeseuon a'r argymhellion yn glir a chryno; a
- bod adroddiadau i'r pwyllgorau craffu yn cynnwys argymhellion neu opsiynau y gallai'r pwyllgorau eu cefnogi.

67 Yn ystod haf 2015, cwblhaodd y Cyngor adolygiad cynhwysfawr o strwythurau a chynnwys ei adroddiadau. Adolygodd swyddogion fformat yr adroddiad safonol a lluniwyd canllawiau ar ysgrifennu adroddiad (arddull, diwyg, ymgynghoriad, prosesau clirio adroddiad) a'i gyflwyno i Bwyllgorau. Ym mis Medi, treialodd y Cyngor dempled newydd ar gyfer adroddiadau safonol, a gymeradwywyd wedyn gan y Pwyllgor Cyfansoddiadol ym mis Hydref 2015. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn cynnwys:

a Strwythur adroddiad cliriach sy'n darparu adrannau crynodeb gweithredol ac argymhellion byr.

b Rhestr termau i egluro termau technegol neu lai cyfarwydd a ddefnyddir heb amharu ar lif yr adroddiad.

c Cyfeiriadau neu ddolenni i bolisïau perthnasol, naill ai fel atodiad neu yn yr adran dogfennau cefndir/ategol.

ch Eglurder o ran yr aelod(au) cabinet sy'n gyfrifol am y pwnc dan sylw ac awdur yr adroddiad.

d Mwy o ddefnydd o hyperddolenni i atodiadau ac i gyfeirio at ddogfennau cefndir/ategol.

dd Templed adroddiad sy'n hyrwyddo eglurder, a gefnogir gan restr wirio clirio adroddiad, i egluro'r hyn sydd angen cael ei ystyried cyn 'cymeradwyo'.

e Uwch swyddogion i sicrhau bod adroddiadau yn cael eu 'cymeradwyo' cyn i'r Rheolwr Pwyllgor eu derbyn a'u cynnwys ar yr agenda. Mae'r canllawiau yn cael eu deall a'u gweithredu'n effeithiol o dan gyfarwyddyd y tîm llywodraethu.

68 Cafodd fformat newydd adroddiadau a'r ddisgyblaeth sy'n sail i gynnwys adroddiad eu cyflwyno'n derfynol yn ystod cylch pwyllgor mis Tachwedd 2015. Bu ymdrech ar y cyd i hyrwyddo dull cyson o ddrafftio/cymeradwyo adroddiadau a darparu cynnwys clir a chryno. Er y gall fod yn rhy gynnar i asesu effaith gyffredinol y newidiadau hyn, mae adborth cynnar gan Aelodau a swyddogion yn gadarnhaol. Mae angen llai o adnoddau i baratoi adroddiadau ac maent yn haws ac yn gyflymach i'w darllen.

## Er gwaethaf amrywiaeth o gamau y bwriadwyd iddynt annog a chefnogi datblygiad aelodau, nid yw'r cyfraddau o ran dilyn hyfforddiant nad yw'n orfodol ymhlith aelodau wedi cynyddu digon

**Asesiad Corfforaethol - Cynnig ar gyfer Gwella C4**

Dylai Arweinwyr Grŵp annog aelodau'n gryf i fanteisio ar Gynllun Datblygu'r Aelodau.

69 Mae'r trefniadau o ran monitro ac adolygu Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor yn glir ac yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Ym mis Gorffennaf 2015, rhoddodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gopi o'r Fframwaith Cymhwysedd i bob Aelod[6] gan ei wahodd i awgrymu diwygiadau i'r strategaeth neu'r pynciau i'w datblygu. Cafodd y pwyllgor ambell awgrym a ystyriwyd ganddo yn ystod yr adolygiad.

70 Cyn hynny, ym mis Ebrill 2015, cyfarfu'r Prif Weithredwr ag Arweinwyr Grŵp er mwyn trafod yr adroddiad asesu corfforaethol a gofynnwyd iddynt annog Aelodau i achub ar gyfleoedd hyfforddi. Yna, rhannodd Arweinwyr Grŵp hyn â'u priod Grwpiau.

71 I annog cyfranogiad, cynhelir sesiynau hyfforddi a datblygu aelodau ar wahanol adegau o'r dydd a min nos; mae hyn yn galluogi aelodau i dderbyn hyfforddiant a chyflawni eu hymrwymiadau eraill. Ar gyfer rhai pynciau hyfforddi, mae'r Cyngor yn trefnu sawl sesiwn er mwyn rhoi mwy o ddewis o ddyddiadau ac amseroedd i Aelodau.

72 Fel bod hyfforddiant ystyrlon yn gallu digwydd, mae'r Cyngor o'r farn bod angen i o leiaf chwe Aelod fod wedi cadarnhau eu bod am fynychu - er bod Aelodau newydd a gaiff eu hethol mewn is-etholiadau yn cael hyfforddiant un i un, lle bo angen. Hefyd, mae Aelodau yn aml yn achub ar gyfleoedd hyfforddi anffurfiol neu ad hoc - mewn grwpiau bach neu gydag aelodau unigol - er mwyn meithrin eu dealltwriaeth o faterion penodol. I ategu rhaglen hyfforddi ffurfiol Aelodau, mae'r Cyngor hefyd yn trefnu gweithdai ar bynciau penodol er mwyn briffio aelodau ar faterion pwysig neu faterion o ddiddordeb sy'n dod i'r amlwg.

6 Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Cynghorwyr - Fframwaith Cymwyseddau Drafft, a luniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

73 Er gwaethaf ymdrechion parhaus i sicrhau bod mwy o Aelodau yn achub ar gyfleoedd hyfforddi, nid yw lefelau presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi wedi cynyddu'n amlwg yn ystod 2015-16.

## Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r adolygiad o'i strwythurau craffu i annog a chefnogi proses gwneud penderfyniadau fwy effeithiol

**Asesiad Corfforaethol - Cynnig ar gyfer Gwella C5**

Dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle, yn sgil adolygu ei strwythurau craffu, i sicrhau bod modd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ychwanegu gwerth gwirioneddol at broses benderfynu'r Cyngor drwy sicrhau cysylltiadau amlycach rhwng agendâu a blaenoriaethau a risgiau'r Cyngor.

74 Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o strwythurau craffu, wedi'i lywio gan fewnbwn gan randdeiliaid yn cynnwys arweinwyr grwpiau gwleidyddol a Chadeiryddion craffu, cymeradwyodd y Cyngor strwythur pwyllgor trosolwg a chraffu newydd ym mis Mai 2015. Mae'r model trosolwg a chraffu newydd yn adlewyrchu model gweithredu'r Cyngor ac mae'n cynnwys Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Newid Sefydliadol.

75 Yn sgil cyflwyno'r Pwyllgor hwn bu'n rhaid i aelodau a swyddogion ddod yn gyfarwydd â phroses graffu wahanol. Er bod gan bump o'r pwyllgorau craffu ddolenni uniongyrchol i bortffolios swyddogaethol, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol yn canolbwyntio'n fwy ar ddatblygu fframweithiau cyllideb a pholisi. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad manylach o faterion polisi a chaiff pwyllgorau eu cynnwys ar gamau datblygu meysydd gwaith mawr.

76 Mae'r rhaglenni gwaith a fabwysiadwyd gan Bwyllgorau Craffu wedi gwella; maent bellach yn nodi'r math o adroddiad a ystyrir, er enghraifft at ddiben ymgynghori, sicrwydd a monitro datblygiad neu er gwybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o flaenraglenni gwaith yn cynnwys trawstoriad o bynciau a ddewiswyd ar gyfer cyfarfodydd - yr eithriad yw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Newid Sefydliadol sydd â blaenraglen waith fwy cyfyngedig. Rhydd hyn fwy o hyblygrwydd i'r Pwyllgor a'r gallu i ymateb i gyfleoedd, heriau a materion sy'n dod i'r amlwg. Gwnaeth adroddiad diweddar atgoffa Aelodau fod angen i'r pwyllgor hwn, yn ôl ei natur, weithredu'n wahanol i'r gweddill er mwyn gwneud cyfraniad ystyrlon.

77 Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ganllawiau ar flaengynlluniau gwaith gan gysoni agendâu â blaenoriaethau a risgiau'r Cyngor yn fwy amlwg. Caiff pwyllgorau eu hannog i ddefnyddio 'prawf arwyddocâd' ac ystyried amrywiaeth o gwestiynau fel; 'A fydd yr adolygiad yn cyfrannu at flaenoriaethau a/neu amcanion y Cyngor?' Caiff sylwadau craffu ac argymhellion ar eitemau agenda priodol eu cynnwys yn rheolaidd yn adroddiadau'r Cabinet.

78 Hefyd, rhoddir mwy o bwyslais ar sicrhau bod argymhellion pwyllgorau craffu yn fwy gweithredol a phwrpasol, a'u bod yn cynnwys llai o eitemau i aelodau 'eu nodi'. Mae cadeiryddion craffu wedi derbyn cymorth ychwanegol, gan gynnwys hyfforddiant unigol, er mwyn eu helpu i wneud eu pwyllgorau'n fwy effeithiol.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei ddull o reoli risg, er mwyn hyrwyddo mwy o gysondeb, ac mae'n bwriadu cyflwyno gwelliannau pellach yn ystod 2016-17 a 2017-18

**Asesiad Corfforaethol - Cynnig ar gyfer Gwella C6**

Dylai'r Cyngor:

- fabwysiadu dull cyson o reoli risg, gan sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â hynny'n defnyddio dull tebyg o gofnodi effaith, tebygolrwydd a chamau lliniaru; a
- chymhwyso'r dull hwn at ei gynlluniau i arbed yn y dyfodol.

79 Yn dilyn asesiad corfforaethol 2014, ymrwymodd tîm prif swyddogion y Cyngor i ddatblygu dull mwy cyson o nodi a rheoli risg. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrywiaeth o gamau gweithredu, gan gynnwys lansio Polisi a Strategaeth Rheoli Risg ddiwygiedig ym mis Ionawr 2016.

80 Hefyd, cyflwynodd y Cyngor system rheoli perfformiad integredig newydd yn 2015, sy'n cynnwys modiwl rheoli risg. Darparodd y modiwl hwn fframwaith cadarn ar gyfer gweithredu'r dull diwygiedig o reoli risg. Defnyddiodd y Cyngor y modiwl i gofnodi a monitro risgiau strategol yng Nghynllun Gwella 2015-16 ac i dreialu dull newydd o reoli risgiau gweithredol o fewn gwasanaethau cymdeithasol.

81 Mae trefniadau adrodd newydd yn annog dull mwy cyson o reoli risg. Bellach, mae'r adroddiadau a gyflwynir gerbron pwyllgorau a'r Cabinet yn cwmpasu risgiau'n fwy amlwg; mae'r templed newydd ar gyfer adroddiadau pwyllgor yn cynnwys adran orfodol ar reoli risg. Hefyd, mae effaith ddisgwyliedig pob risg yn fwy amlwg, wedi'i chefnogi gan fatrics risg mwy soffistigedig. Mae gwelliannau i'r broses o gynllunio gwasanaethau hefyd yn cefnogi rheoli risgiau gweithredol.

82 Mae'r Cyngor bellach yn mynd ati i ddiweddaru ac adrodd ar risgiau corfforaethol yn amlach - yn hytrach na dim ond yn y Cynllun Gwella Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Mae tîm y prif swyddogion hefyd wedi ymrwymo i atgyfnerthu ei ddull o reoli risg drwy ddatblygu adroddiad a chofrestr chwarterol ar gyfer bygythiadau risg a risgiau sy'n dod i'r amlwg; mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo.

83 Mae'r Cyngor yn dadansoddi risg wrth lunio cynlluniau arbedion ar gyfer y dyfodol; mae'r cynlluniau'n cynnwys adrannau ar gyfer nodi risgiau a'u statws gan ddefnyddio system coch, melyn a gwyrdd[7], yn ogystal â threfniadau i liniaru risg. Fodd bynnag, ni fu ei ddull o weithredu yn gwbl gyson; nid yw pob cynllun yn cynnwys adrannau sy'n egluro'r camau lliniaru neu'r ymatebion a gynllunnir os bydd risgiau yn cael eu gwireddu. Mae'r Cyngor yn disgwyl gweld mwy o gysondeb, nawr bod y gwaith o gyflwyno'r system rheoli perfformiad integredig a'r adnoddau cysylltiedig wedi'i gwblhau.

7 Mae adroddiadau'r Cyngor yn nodi'r lefel o risg gan ddefnyddio system 'goleuadau traffig': mae Gwyrdd yn dynodi risg isel, mae Melyn yn dynodi risg ganolig ac mae Coch yn dynodi risg uchel. Mae adroddiadau'r Cyngor yn aml yn darparu gwybodaeth ychwanegol am feysydd a ddynodwyd yn rhai risg Coch (uchel).

84 Cyflwynodd y Cyngor fformat gwell ar gyfer nodi risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â chanllawiau newydd ar gyfer uwchgyfeirio risgiau ac adrodd arnynt, ar sail difrifoldeb. Adroddir ar risgiau lefel uwch (rhai 'du) bob mis ac adroddir ar risgiau 'coch' neu 'felyn' bob chwarter.

85 Adolygodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer risgiau strategol a gweithredol ar ddechrau 2016, er mwyn asesu cydymffurfiaeth y system â gweithdrefnau sefydledig a chynnydd yn erbyn argymhellion cynharach. Nododd yr adolygiad rai meysydd y mae angen gweithredu arnynt ymhellach, ond gwelwyd bod perchenogaeth rhanddeiliaid, ynghyd â'u dealltwriaeth a chysondeb eu dull o reoli risg i gyd wedi gwella.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Aaron Shotton a Colin Everett
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

Annwyl Aaron a Colin

**Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Sir y Fflint 2014-15**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd Cyngor Sir y Fflint o'r materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 24 Medi 2015 ac fe'u crynhoir isod:

- Newidiodd y Cyngor ei sail dros baratoi'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant a arweiniodd at amrywiannau mawr nas eglurwyd a nifer fawr o wallau yr oedd angen eu cywiro.

- Nodwyd rhai gwendidau o ran rheolaethau mewnol y Cyngor ar gyfer prosesu'r gyflogres. Roedd y rhain yn gyson â chanfyddiadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Er ein bod yn fodlon na wnaeth y gwendidau rheoli hyn effeithio ar ein barn am y datganiadau ariannol, maent yn ddifrifol gan eu bod yn cynyddu'r risg o wall a thwyll wrth brosesu cyflogau.
- Mae angen atgyfnerthu lefelau craffu ac adolygu mewn perthynas â'r datganiadau ariannol drafft, ynghyd â chydnabod cydgyfrifoldeb am baratoi'r cyfrifon ac ymateb i'r broses archwilio ledled y Cyngor. Mae hyn yn hanfodol os yw'r Cyngor am ateb yr heriau sy'n deillio o gynigion Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i baratoi a chyhoeddi cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn gynt.

Fel y nodwyd yn fy adroddiad, ar ôl cwblhau'r archwiliad, cytunwyd ein bod yn cynnal sesiwn ddysgu ôl-prosiect gyda swyddogion er mwyn nodi unrhyw welliannau y gellir eu gwneud. Mae'r cyfarfod hwnnw wedi cael ei gynnal a chytunwyd ar nifer o gamau gweithredu er mwyn gwella prosesau a dulliau gweithredu mewn perthynas â pharatoi ac archwilio datganiadau ariannol 2015-16.

Mae hefyd yn werth nodi bod y Cyngor yn arwain y gwaith o baratoi cyfrifon Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a Chonsortia Trafnidiaeth Ranbarthol Taith. Ar 30 Medi 2015, mewn perthynas â Chydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, cadarnhawyd gennyf fod y wybodaeth yn ei ffurflen flynyddol yn unol ag arferion priodol, ac o ran consortia rhanbarthol Taith, rhoddais farn ddiamod ar ei gyfrifon sy'n cadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Pwyllgor. Hysbyswyd y pwyllgorau perthnasol o'r materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliadau hyn o gyfrifon. Nid oes angen i mi ddwyn unrhyw beth arall at eich sylw yn y llythyr hwn.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

Yn hanesyddol, rwyf wedi achub ar y cyfle i wneud sylw ar broses cynllunio ariannol y Cyngor yn fy llythyr archwilio blynyddol. Fodd bynnag, rydym wedi cynnal Asesiad o Gydnerthedd Ariannol y Cyngor yn ddiweddar a byddaf yn cyhoeddi fy adroddiad ym mis Rhagfyr.

**Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2015**

Rhoddais hefyd dystysgrif gwblhau ar gyfer y Cyd-bwyllgorau ar yr un diwrnod.

**Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol**

Ym mis Mehefin 2015, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio fy adroddiad ar yr Ardystiad o Grantiau a Ffurflenni 2013-14 a wnaeth gadarnhau bod y Cyngor, at ei gilydd, wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i baratoi'r gwaith o gyflwyno ei hawliadau grant. Fodd bynnag, roedd 53 y cant o'r hawliadau'n amodol ac roedd 26 y cant arall wedi cael eu diwygio ac roedd angen i'r Cyngor ymgorffori a gwella ymhellach y trefniadau a fabwysiadwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Fel roedd yn gwbl gywir, mynegodd y Pwyllgor Archwilio ei siom a'i bryderon ynghylch canfyddiadau'r adroddiad.

Cyn dechrau paratoi hawliadau 2014-15, gwnaethom weithio gyda'r swyddogion perthnasol er mwyn eu helpu i nodi'r meysydd lle nad oedd prosesau y cytunwyd arnynt yn flaenorol yn cael eu dilyn yn gyson ac er mwyn egluro disgwyliadau'r archwiliad. Hefyd, gwnaethom roi rhagor o hyfforddiant grantiau i swyddogion a oedd ynghlwm wrth baratoi ffurflenni grant. Gobeithir y bydd y camau gweithredu hyn, ynghyd â chamau eraill a gymerir gan yr adran Gyllid, yn gwella ansawdd yr hawliadau grant a gyflwynir i'w harchwilio.

Mae fy rhaglen o waith archwilio ar hawliadau grant 2014-15 wedi dechrau a byddaf yn cyflwyno adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn ystod gwanwyn 2016, ar ôl i raglen gwaith ardystio'r flwyddyn hon gael ei chwblhau.

Yng Nghynllun Archwilio 2015, nodais fy mod yn disgwyl i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn £216,336. O ganlyniad i'r problemau a nodwyd a'r gwaith ychwanegol dilynol er mwyn fy ngalluogi i lunio barn am y cyfrifon, bydd y ffi ychydig yn uwch na'r disgwyl. Byddwn yn trafod hyn gyda'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol maes o law ac yn hysbysu'r Pwyllgor Archwilio o'r sefyllfa pan fydd ein holl waith ar ben. Mae'r holl ffioedd eraill yn unol â'r rhai a nodwyd yn y cynllun.

Yn gywir

**John Herniman**
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd – y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.<br>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.<br>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.<br>A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.<br>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.<br>A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 Egluro natur a gweithrediad y consortia. Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia i'w darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynir (mae gwasanaethau a ddarperir dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid yn wasanaethau a gomisiynir).<br>A2 Canolbwyntio ar ddeilliannau trwy gynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod pwyslais ar gamau byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn amharu ar ddatblygiad effeithiol y consortia rhanbarthol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Rydym yn argymell felly:<br>• Gan na fydd unrhyw weithgareddau posibl i ad-drefnu awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu'n llawn tan 2020, y dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu, ehangu cwmpas a chyllido consortia rhanbarthol, yn gysylltiedig ag amcanion strategol priodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A3 Datblygu mwy o gydberthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion. Roedd llawer o bartneriaid gwella ysgolion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond canfuwyd nad oedd hyn wedi arwain at feithrin perthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Rydym yn argymell felly y:<br>• Dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arferion a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o ymdrin â phroblem neu fod â chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer datblygu polisi).<br>• Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod bod yr holl bartneriaid yn ddibynnol ar ei gilydd er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o:<br>– rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i wella ysgolion;<br>– datblygu perthnasau cydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd; a<br>– chynnal adolygiadau o'r system gyfan ac alinio dealltwriaeth a safbwynt y consortia rhanbarthol ar draws pob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.<br>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus. Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi cael anawsterau wrth recriwtio uwch arweinwyr addysg a chanfuwyd mai ychydig iawn o gamau a oedd wedi eu cymryd i ymdrin â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wneud swyddi addysg arweiniol yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf dawnus ar gyfer y system gwella addysg; ac<br>• y dylai awdurdodau lleol gydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol yr uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer uwch arweinwyr. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol. Er bod datblygiadau parhaus yn cael eu gwneud, canfuwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli cyllid cwbl effeithiol hyd yn hyn (paragraffau 3.2 i 3.36). Rydym yn argymell felly y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol:<br>• wella eu defnydd o hunanwerthuso ar gyfer eu perfformiad a'u trefniadau llywodraethu a'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes ac i gefnogi adolygiadau blynyddol o ddulliau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella eu dulliau rheoli perfformiad gan gynnwys cynllunio busnes yn well, defnyddio mesurau perfformiad eglur a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau llywodraethu a chyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol i sicrhau bod prosesau cyllidebu, monitro ac adrodd ariannol yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys cyllid grant a wariwyd trwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol yn ogystal â chraffu ar berfformiad gan awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod y trefniadau a'r penderfyniadau y mae consortia yn eu gwneud yn agored ac yn dryloyw;<br>• cydnabod ac ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn eglur a bod yr holl staff yn ymwybodol o'r swyddogaethau a gyflawnir; a<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br>A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor.<br>A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system cydymffurfiaeth gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfiaeth o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.<br>A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth a'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A5 Wrth adolygu canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn mae'n disgwyl o awdurdodau lleol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig mewn gwasanaethau addysg, a'r unigolyn a enwwyd ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hybu diogelu.<br>A6 Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y Cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.<br>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor.<br>A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn drwy:<br>• benodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn;<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaethau pobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a rhanddeiliaid.<br><br>A2 Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethaui bobl hŷn yn well drwy:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol; ac<br>• ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau.<br><br>A3 Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn.<br><br>A4 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy:<br>• bennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu yn holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol, ac yn enwedig y rhai y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:<br>• nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithiol arnynt.<br><br>A6 Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno drwy:<br>• bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif ffrydio i dderbyn cyllid craidd; a<br>• gwella'r ymgysylltu a'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• bennu gweledigaeth gytunedig y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal; ac<br>• ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol.<br><br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y Cyngor a'i flaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau hamdden. Dylai'r arfarniad ystyried:<br>• faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A3 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith. Dylai hyn drafod perfformiad yr holl Gyngor a pherfformiad cyfleusterau penodol a chynnwys:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau/cyfleusterau, amserau defnydd ac ati; ac<br>• effaith cyfleusterau hamdden wrth ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd.<br><br>A4 Gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• adrodd yn rheolaidd ar berfformiad wrth bwyllgor(au) craffu;<br>• darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso proses benderfynu gadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru